



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Rhan 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011: Rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg

Dyfarniad ac adroddiad Comisiynydd y Gymraeg ar ymchwiliad i gais o dan
adran 111 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

2 Sisters Food Group

Cyf: 2456

Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn trwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, trwy osod safonau ar sefydliadau, ac adolygu ac ymchwilio cydymffurfiaeth â'r Mesur. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i'r gwaith:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Manylion cyswllt:

- Ffôn: 0845 6033 221
- E-bost: post@comisiynyddygybraeg.org
- Gwefan: comisiynyddygybraeg.org

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT

1.	Gwneud cais i'r Comisiynydd	1
2.	Penderfynu ai i ymchwilio ai peidio	1
3.	Yr ymchwiliad	1
4.	Canfyddiadau'r ymchwiliad	2
5.	Cwblhau'r ymchwiliad	3
6.	Cyngor	6
7.	Ymholiadau	7

Rhagair

Mae Rhan 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur') yn sefydlu'r egwyddor bod gan unigolyn ryddid i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg gydag unigolyn arall yng Nghymru. Mae'r rhagair hwn yn grynodedb o'r prif hawliau a dyletswyddau o dan Ran 6 y Mesur er mwyn rhoi cyd-destun cyffredinol yn unig. Nid yw'n ddatganiad cyflawn o'r gyfraith nac yn cynnwys pob agwedd o fanylder a chamau'r Rhan honno.

Gwneud cais i'r Comisiynydd

O dan adran 111 y Mesur:

'Caiff unigolyn (P) wneud cais i'r Comisiynydd yn gofyn i'r Comisiynydd ymchwilio i a yw person (D) wedi ymyrryd â rhyddid P i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg ag unigolyn arall (R) ("yr ymyrraeth honedig").'

Penderfynu ai i ymchwilio ai peidio

Mater i'r Comisiynydd yw penderfynu ai i ymchwilio i achos honedig o ymyrraeth ai peidio. Wrth benderfynu rhaid i'r Comisiynydd gymryd i ystyriaeth ym mha gyd-destun yr honnir bod yr ymyrraeth wedi digwydd. Caiff y Comisiynydd ofyn i P, D, neu i unrhyw berson arall, am wybodaeth neu holi ei farn ynghylch yr ymyrraeth honedig. Os yw'r Comisiynydd yn penderfynu gwneud hynny, rhaid darparu i P a D y wybodaeth berthnasol am ymchwiliadau.

Ymchwiliadau

Cynhelir ymchwiliad i achos honedig o ymyrraeth o dan adrannau 115-117 y Mesur:

'115. – (2) Caiff y Comisiynydd ofyn i P, D, neu i unrhyw berson arall, am wybodaeth neu holi ei farn ynghylch yr ymyrraeth honedig.'

Wrth gynnal ymchwiliad, rhaid i'r Comisiynydd rhoi cyfle rhesymol i D i ymateb i'r honiadau a wnaed gan P.

Terfynu ymchwiliadau

Yn unol ag adran 116 y Mesur caiff y Comisiynydd derfynu ymchwiliad ar unrhyw adeg.

Cwblhau ymchwiliadau

Os yw'r Comisiynydd yn penderfynu ymchwilio i gais, ac nid i derfynu'r ymchwiliad hwnnw, rhaid i'r Comisiynydd ddyfarnu a yw D wedi ymyrryd â rhyddid P i ymgymryd â'r cyfathrebiad Cymraeg ai peidio. Os yw'r Comisiynydd yn dyfarnu bod D wedi ymyrryd â rhyddid P i ymgymryd â'r cyfathrebiad, rhaid i'r Comisiynydd hefyd roi ei barn ar yr ymyrraeth (gan gynnwys ei barn ynghylch cyfiawnhad yr ymyrraeth).

Rhaid i'r Comisiynydd hysbysu D o'r dyfarniad y mae'n bwriadu ei gwneud a rhoi cyfle rhesymol i D ymateb i'r dyfarniad hwnnw, cyn gwneud y dyfarniad.

Rhaid i'r Comisiynydd hysbysu P a D o'r dyfarniad ac, os dyfarnir bod ymyrraeth wedi digwydd, ei barn ar yr ymyrraeth.

Caiff y Comisiynydd roi i P, D, neu i unrhyw berson arall gyngor ynghylch yr ymyrraeth neu unrhyw fater sy'n ymwneud â'r ymyrraeth honedig.

Adroddiadau

Llunnir adroddiad o dan adran 118 y Mesur ar sail canfyddiadau'r ymchwiliad.

'118. – (2) Caiff y Comisiynydd lunio, a rhoi i Weinidogion Cymru, adroddiad ar –

(a) y cais, a

(b) y camau a gymerwyd gan y Comisiynydd mewn ymateb i'r cais.

Rhaid i'r Comisiynydd roi copïau o unrhyw adroddiad o'r fath i P a D.

Gyda chytundeb P a D caiff y Comisiynydd gyhoeddi adroddiad neu fersiwn o'r adroddiad hwnnw neu ddogfen arall sy'n ymwneud â phwnc yr adroddiad hwnnw. Caiff y Comisiynydd hefyd gyhoeddi dogfen gyhoeddus heb gytundeb os yw o'r farn y byddai gwneud hynny er budd y cyhoedd.

Cyn cyhoeddi dogfen gyhoeddus rhaid i'r Comisiynydd hysbysu P a D o'r bwriad i wneud hynny cyn belled ag y bo'n ymarferol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i P, D neu i unrhyw berson arall y mae'r Comisiynydd o'r farn ei fod yn briodol, i roi barn i'r Comisiynydd ynglŷn â chyhoeddi dogfen gyhoeddus.

Yn achos unrhyw gais lle dyfarna'r Comisiynydd nad yw D wedi ymyrryd â rhyddid P i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg, rhaid i ddogfen gyhoeddus beidio â'i gwneud yn hysbys pwy yw D.

1. Gwneud cais i'r Comisiynydd

- 1.1 Derbyniodd y Comisiynydd gais dilys o dan adran 111 y Mesur ar 27/04/2018 gan unigolyn (P). Honnai P bod ei gyflogwr ar y pryd, 2 Sisters Food Group (D), wedi ymyrryd â'i ryddid i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg ag unigolion eraill, sef cydweithiwr iddo oedd yn siarad Cymraeg yng Nghymru (R). Yn benodol, honai'r unigolyn bod rheolwr o staff 2 Sisters Food Group wedi ei wahardd ef rhag ateb cwestiwn Cymraeg gan gydweithiwr yn ystod cwrs hyfforddiant ym mis Hydref 2017. Mae'r cais yn ysgrifenedig ac yn darparu cyfeiriad lle y caiff y Comisiynydd gysylltu â P.
- 1.2 Mae'r cais yn ei gwneud yn hysbys pwy yw D ac yn disgrifio'r ymyrraeth honedig.
- 1.3 Ceisiodd dau unigolyn gynnal cyfathrebiad Cymraeg uniongyrchol yng Nghymru. Roedd yr unigolion yn dymuno defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd wrth ymgymryd â'r cyfathrebiad.

2. Penderfynu ai i ymchwilio ai peidio

- 2.1 Ar sail cais P ac ar ôl ystyried y materion penodol o dan adran 114 y Mesur, penderfynodd y Comisiynydd agor ymchwiliad o dan ran 6 y Mesur yn ystod cyfarfod o'r Panel Ymchwilio a Gorfodi ar 14/06/2018.
- 2.2 Darparodd y Comisiynydd i P a D y weithdrefn ar gyfer cynnal ymchwiliad o dan Ran 6 y Mesur a phwerau'r Comisiynydd mewn perthynas ag ymchwiliad o'r fath, yn unol ag adran 114(3)(c) o'r Mesur.

3. Yr ymchwiliad

- 3.1 Dyfarniad y Comisiynydd ar yr ymchwiliad a gynhaliwyd mewn ymateb i gais P o dan adrannau 115-117 y Mesur ac adroddiad y Comisiynydd o dan adran 118 y Mesur yw'r ddogfen hon. Nod yr ymchwiliad oedd galluogi'r Comisiynydd i ddyfarnu a wnaeth D ymyrryd â rhyddid i P i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg ai peidio.
- 3.2 Mae adran 115 y Mesur yn rhoi disgrisiwn i'r Comisiynydd o ran pennu trefn ar gyfer cynnal ymchwiliad. Amlinellwyd trefn yr ymchwiliad mewn llythyr i P a D, dyddiedig 17/07/2018. Gofynnwyd i'r partion ymateb i gwestiynau penodol ynghylch yr ymyrraeth honedig ac fe'u gwahoddwyd i ddarparu unrhyw wybodaeth neu farn ychwanegol sydd, yn eu barn nhw, yn berthnasol i'r ymchwiliad.
- 3.3 Ymatebodd P a D fel a ganlyn:
 - Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb gan P.
 - Derbyniwyd ymateb dyddiedig 25/07/2018 gan D ar 31/07/2018

4. Canfyddiadau'r ymchwiliad

Honiad P

- 4.1 Derbyniwyd honiad gan P oedd yn aelod o staff y cwmni 2 Sisters Food Group (D) ar 27 Ebrill 2018. Roedd P yn honni bod Rheolwr Iechyd a Diogelwch o fewn y cwmni wedi gwrthod gadael i P ateb cwestiwn Cymraeg gan gydweithiwr yn Gymraeg. Yn ôl P digwyddodd hyn yn ystod cwrs hyfforddiant ym mis Hydref 2017.
- 4.2 Yn ôl y manylion a ddarparodd P, y Rheolwr Iechyd a Diogelwch oedd yr hyfforddwr ar y cwrs. Dywed P i'r hyfforddwr ddweud "No Welsh please" pan ofynnodd cydweithiwr gwestiwn yn Gymraeg i P.
- 4.3 Esboniodd P iddo ymateb yn anghwrtais i'r gorchwymyn i beidio ateb yn Gymraeg ac fe ddywedodd wrth y Comisiynydd ei fod yn teimlo fod y gorchwymyn yma i beidio ateb yn Gymraeg yn ei ddirfrio. Esboniodd P ymhellach ei fod o'r farn nad oedd gan unrhyw un hawl i rwystio rhywun arall rhag siarad Cymraeg.
- 4.4 Yn ôl P fe arweiniodd y digwyddiad at ymchwiliad i ymddygiad P ac yn ôl P cafodd ei hawl i ddefnyddio'r Gymraeg ei ddiystyru.
- 4.5 Esboniodd P ei fod yn anfodlon defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith ar ôl y digwyddiad, a'i fod yn teimlo ei fod o dan oruchwyliaeth agosach gan swyddogion diogelwch y saffle a rheolwyr gan fod rhai o'r farn ei fod yn genedlaetholwr peryglus.
- 4.6 Cysylltodd P gyda'r Comisiynydd saith mis ar ôl y digwyddiad. Yn ôl P nid oedd am gysylltu cyn hynny gan ei fod ofn colli ei swydd ac roedd ganddo ofn na fyddai ei gydweithwyr yn cadarnhau ei stori.
- 4.7 Wrth gyflwyno ei honiad esboniodd P ei fod wedi cwyno wrth ei reolwr llinell a'r hyfforddwr ar y cwrs yn anffurfiol. Yn ôl P dywedodd ei reolwr wrtho i fod yn fwy cynhwysol ac i beidio a chynhyrfu'r dyfroedd.
- 4.8 O'r wybodaeth a ddarparwyd, dealltwriaeth y Comisiynydd yw bod P yn honni iddo gael ei rwystro gan D rhag defnyddio'r Gymraeg wrth ymgymryd â chyfathrebiad gyda chydweithiwr yng Nghymru.

Ymateb D

- 4.9 Yn ei ymateb eglurodd D bod P a'r Rheolwr Iechyd a Diogelwch oedd yn gyfrifol am y cwrs hyfforddiant bellach wedi gadael y cwmni. Fodd bynnag, esbonia D bod adroddiad wedi ei lunio gan y Rheolwr Iechyd a Diogelwch ar ôl y digwyddiad dan sylw.
- 4.10 Yn adroddiad y Rheolwr Iechyd a Diogelwch o'r digwyddiad esbonnir bod y Rheolwr Iechyd a Diogelwch yn cynnal cwrs hyfforddiant Iechyd a Diogelwch ac roedd P yn bresennol. Yn ystod y sesiwn briffio fe wnaeth P ymddwyn mewn modd trafferthus ac anghydweithredol. Yn ôl D roedd yr adroddiad yn esbonio bod P wedi gweiddi ar y grŵp oedd yn bresennol bod yr hyfforddiant yn wastraff amser. Yna, esbonia D, fe wnaeth P siarad yn Gymraeg gyda'r gweddill y grŵp oedd ar yr hyfforddiant. Yn ôl D gan nad oedd yn siarad Cymraeg fe ofynnodd y Rheolwr Iechyd a Diogelwch i'r sgwrs gael ei chynnal yn Saesneg er mwyn iddo gael ei gynnwys yn y sgwrs. Yn ôl D fe ddywedwyd wrth y Rheolwr i ddysgu Cymraeg.

- 4.11 Yn ei ymateb fe esbonia D bod yr hyfforddiant ynglŷn ag ‘Ynysu a chloi’ (‘Isolation and lock-off’) peiriannau ac felly roedd yn hanfodol fod y Rheolwr yn sicrhau bod yr holl fynychwyr yn gymwys ac yn deall holl gynnwys y cwrs. Oherwydd hynny, nid oedd y Rheolwr lechyd a Diogelwch yn teimlo bod ei gais i P siarad yn Saesneg yn afresymol nac ychwaith yn ymyrryd â rhyddid i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg gyda unigolyn arall.
- 4.12 Darparodd D wybodaeth gyffredinol am y sefyllfa ieithyddol ar safle'r cwmni yn Llangefni. Yn ôl tystiolaeth D defnyddir yr iaith Gymraeg yn rhydd ar y safle ac fe esbonia'r cwmni bod y mwyafrif o'r gweithlu yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, esbonnir bod canran o unigolion o genhedloedd eraill yn gweithio ar y safle felly Saesneg yw iaith fusnes y cwmni. Yn ôl D mae'r cwmni yn gweithio'n agos gyda gweithwyr i ddarparu ar gyfer ceisiadau am gyfarfodydd neu gyfweiliadau yn Gymraeg.
- 4.13 Ni wnaeth y cwmni gefnogi'r camau gymerodd y rheolwr na'u beirniadu ychwaith. Dim ond esbonio beth ddigwyddodd yn ystod y cwrs. Ni wnaeth y cwmni sôn am gynnal unrhyw hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth am sefyllfa ieithyddol yr ardal.

5. Cwblhau'r ymchwiliad

- 5.1 Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth y cyfeirir ati uchod, mae'r Comisiynydd wedi dod i'r casgliadau canlynol:
- 5.1.1 Mae D yn cydnabod bod y Rheolwr lechyd a Diogelwch a oedd yn ei gyflogaeth ar y pryd wedi gofyn i P barhau gyda'i sgwrs yn Saesneg er mwyn iddo gael ei gynnwys yn y sgwrs. Ar sail y wybodaeth yma mae'r Comisiynydd yn dyfarnu bod D wedi ymyrryd â rhyddid P i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg.
- 5.2 Mae'r Comisiynydd felly yn rhoi ei barn ar yr ymyrraeth isod (gan gynnwys ei barn ynghylch a ellid cyfiawnhau'r ymyrraeth, ond heb fod yn gyfyngedig i'r farn honno)
- 5.2.1 Ymddengys i'r Comisiynydd bod P o'r farn fod ganddo reswm i siarad efo'i gydweithiwr yn Gymraeg ac fe wnaeth arfer ei hawl i wneud hynny yn Gymraeg.
- 5.2.2 Mae rhai sefyllfaoedd yn codi mewn gweithleoedd dwyieithog, neu amlieithog yn yr achos yma, lle bo angen i drafodaethau ddigwydd mewn iaith y mae pawb yn ei ddeall. Fodd bynnag, yn yr achos yma sgwrs rhwng P a'i gydweithiwr neu gydweithwyr oedd y sgwrs ac nid oedd angen i bawb oedd yn bresennol fod yn rhan o'r sgwrs.
- 5.2.3 Mae'r Comisiynydd yn deall fod rhaid i bawb ddeall materion iechyd a diogelwch ac mai bwriad yr hyfforddiant oedd sicrhau bod y gweithwyr yn deall yn llawn y mater dan sylw. Fodd bynnag, nid oedd y sgwrs sydd o dan sylw'r ymchwiliad yn cyflwyno gwybodaeth ynglŷn â iechyd a diogelwch. Gall fod rhai achosion ble mae iechyd a diogelwch yn reswm dros bennu un iaith i'w defnyddio mewn rhai achosion yn y gweithle. Ond, nid wyf o'r farn bod angen i bob dim sy'n ymwneud â materion iechyd a diogelwch gael ei wneud yn Saesneg. Nid oedd y sgwrs yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion yr hyfforddiant, ac nid oedd yn golygu na fyddai'r Rheolwr yn deall mater iechyd a diogelwch ai peidio. Felly nid yw'r ffaith bod y cyfathrebiad wedi digwydd yn ystod cwrs hyfforddiant iechyd a diogelwch yn berthnasol. Mae Rhan 6 y Mesur yn rhoi rhyddid cyfreithiol i unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru. Felly, mewn sefyllfa lle bo dau unigolyn yn dymuno trafod yn Gymraeg â'i gilydd, boed i drafod busnes neu fel arall, ni ddylid ymyrryd â'u rhyddid i wneud hynny mewn unrhyw ffordd.

- 5.2.4 Wrth i reolwr roi cyfarwyddyd i staff ar lefel is ddefnyddio'r Saesneg, yna credaf y byddai swyddog ar lefel is yn teimlo o dan bwysau i gydymffurfio â chais gan reolwr ac y byddai o bosib yn pryderu ynglŷn â dioddef anfantais pe bai'n dewis parhau i siarad Cymraeg yn erbyn cyfarwyddyd gan reolwr. Dyma sut yr oedd P yn teimlo yn ôl ei dystiolaeth i'r Comisiynydd. Gall cyfarwyddyd, fel yr un roddodd y Rheolwr Iechyd a Diogelwch i P, gyfleu'r neges nad yw siarad Cymraeg i'w groesawu yn y gweithle.
- 5.2.5 Rhaid i'r cwmni ystyried ei fod yn bosib mai'r hyn a arweiniodd at roi'r cyfarwyddyd i beidio siarad Cymraeg oedd diffyg dealltwriaeth y Rheolwr Iechyd a Diogelwch o natur ieithyddol yr ardal a'r gweithlu. Os dyma oedd y tu ôl i gais y Rheolwr i'r rhai oedd yn bresennol beidio â siarad Cymraeg yna dylai'r cyflogwr ysgwyddo rhywfaint o'r cyfrifoldeb am hynny.
- 5.2.6 Mae'r Comisiynydd o'r farn bod D wedi ymyrryd â rhyddid P i ymgymryd â'r cyfathrebiad Cymraeg, ac nad oedd cyfiawnhad dros yr ymyrraeth honno. Canlyniad yr ymyrraeth yn yr achos hwn oedd bod P yn teimlo ei fod wedi ei ddifrio ac nad oedd yn hyderus yn siarad Cymraeg yn y gweithle.
- 5.3 Mae adran 117(4) y Mesur yn datgan ei bod yn ofynnol i'r Comisiynydd hysbysu D o'r dyfarniad y mae'n bwriadu ei wneud ac o'r farn y mae'n bwriadu ei roi ar yr ymyrraeth. Yn unol â'r ddyletswydd hwn, hysbyswyd 2 Sisters Food Group o ddyfarniad a barn arfaethedig y Comisiynydd ar 14 Tachwedd 2018. Yn dilyn hynny, derbyniwyd gwybodaeth ychwanegol gan y cwmni mewn llythyr, dyddiedig 26 Tachwedd 2018. Nid oedd y wybodaeth ychwanegol a amlinellwyd yn y llythyr yn darparu rhagor o fanylion ynghylch y digwyddiad dan sylw, ond yn hytrach yn darparu ymateb y cwmni i'r ymchwiliad a'r dyfarniad arfaethedig.
- 5.4 Esboniodd y cwmni bod y digwyddiadau a arweiniodd at yr ymchwiliad wedi eu cymryd yn ddifrifol iawn gan y cwmni a bod mesurau cefnogi pwrpasol wedi eu gosod er mwyn sicrhau bod cais P bod cyfarfodydd pellach yn cael eu cynnal yn Gymraeg yn gallu cael ei wireddu.
- 5.5 Esboniodd y cwmni bod 40% o'r Tîm Rheoli ar y Safle yn Llangefni yn siarad Cymraeg, yn ogystal â hanner y swyddogion adran Adnoddau Dynol a 10 aelod o staff eraill sydd mewn swyddi sy'n goruchwyllo neu gefnogi eraill yn siarad Cymraeg. Yn ychwanegol at hyn mae hanner y cynrychiolwyr Undeb yn siarad Cymraeg hefyd.
- 5.6 Esbonia'r cwmni bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio yn helaeth ar draws y safle ac mae defnyddio'r iaith Gymraeg yn cael ei gweld fel 'norm'. Oherwydd hynny fe esbonia'r cwmni nad oedd ffurfioli'r defnydd o'r Gymraeg wedi cael ei ystyried cyn hyn gan fod defnyddio'r Gymraeg yn gyffredin iawn ar y safle ac yn arfer sy'n cael ei dderbyn yn gyffredin.
- 5.7 Fodd bynnag, maent yn derbyn sylwadau'r Comisiynydd ac wedi gwneud newidiadau er mwyn ffurfioli ymrwymiad y cwmni i gefnogi hawliau eu gweithwyr i siarad yr iaith maent yn ddewis ei siarad, gan roi pwyslais ar y Gymraeg oherwydd lleoliad y safle. Mae'r cwmni yn bwriadu cynnwys y paragraff canlynol yn y Polisi Cyfleoedd Cyfartal sydd yn llawlyfr Staff 2 Sisters:
- "Although the established Language of 2Sisters Food Group is English we recognise each individuals' freedom to speak Welsh at work. No person will be prevented from using the Welsh Language. Key departments within 2Sisters Llangefni have appointed English and Welsh speakers to further strengthen our freedom of Language"
- 5.8 Esbonnir hefyd y bydd posteri yn cael eu harddangos ar fyrddau arddangos yn rhoi gwybod i staff bod arwyddion gyda'r ddraig goch ar leoliadau gwaith siaradwyr Cymraeg os ydynt yn dymuno cael arwydd.

- 5.9 Diolchodd y cwmni am gyngor y Comisiynydd yn yr adroddiad. Roedd y cwmni yn gobeithio bod y camau y maent wedi ei gymryd yn dangos pa mor ddifrifol maent ynglŷn â lles staff a rhyddid staff i ddefnyddio eu ieithoedd eu hunain.
- 5.10 Rwyf yn croesawu'r camau mae'r cwmni wedi ei gyflwyno. Nid yw'r wybodaeth y cyflwynodd y cwmni wedi newid fy nyfarniad ar yr ymyrraeth gyda'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg.

6. Cyngor

- 6.1 Yn unol ag adran 117(7) y Mesur mae'r Comisiynydd yn rhoi i D y cyngor canlynol ynghylch yr ymyrraeth:
- 6.1.1 Mae Rhan 1 y Mesur yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru. Fel sefydliad sy'n cynnal ei fusnes yng Nghymru, dylai 2 Sisters Food Group roi ystyriaeth lawn i'r statws swyddogol hwn trwy ddarparu canllawiau i'w staff a'i rheolwyr ynglŷn â rhyddid unigolion i siarad Cymraeg yn y gwaith.
 - 6.1.2 Dylai 2 Sisters Food Group godi ymwybyddiaeth rheolwyr a gweddill eu staff o'r egwyddor na ddylid rhwystro staff rhag defnyddio'r Gymraeg. Dylid ystyried cynnwys hyn mewn dogfennau adnoddau dynol.
 - 6.1.3 Dylai 2 Sisters Food Group ystyried sut orau i godi ymwybyddiaeth staff a rheolwyr y tu fewn a'r tu allan i Gymru o'r iaith Gymraeg.
 - 6.1.4 Dylai 2 Sisters Food Group ddatgan mewn dogfen bolisi na fydd staff y cwmni yn ymyrryd â rhyddid unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd ac na fydd y cwmni yn cydoddef gwaharddiadau neu rhwystrau i staff siarad Cymraeg gyda staff eraill sydd hefyd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg.

7. Ymholiadau

- 7.1 Dymunai'r Comisiynydd ddiolch i'r partïon perthnasol am eu cydweithrediad wrth gynnal yr ymchwiliad hwn.
- 7.2 Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch yr adroddiad yr ymchwiliad at:

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT